



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref MA - P/DET/0865/19

Rhodri Glyn Thomas  
Llywydd  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Aberystwyth  
SY23 3BU

Ebrill 2019

Annwyl Rhodri

Hoffwn ddechrau wrth eich llongyfarch ar flwyddyn lwyddiannus a chynhyrchiol yn hanes y Llyfrgell Genedlaethol yn 2018-19 pan welwyd agor arddangosfa o waith Kyffin Williams RA, arddangosfa Tra Môr yn Fur: Wales and the Sea (mewn cydweithrediad â CBHC ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau) a Thymor Mostyn a'r arddangosfa ragorol 'Llawysgrifau Mostyn: Dathlu'r Canmlwyddiant'. Mae canolfan ddiwylliannol Glan-yr-Afon yn Hwlfordd, lle gwelwyd y Llyfrgell yn cydweithio â Chyngor Sir Penfro, hefyd yn ddatblygiad pwysig i'r Llyfrgell. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle y mae'n ei roi i wella proffil cyhoeddus y Llyfrgell a'i pherthynas â'r gymuned leol. Rwy'n falch gweld hefyd bod rhaglenni digideiddio, gwella mynediad ac addysg a digwyddiadau'r Llyfrgell yn mynd rhagddyn nhw, ynghyd â'ch ymdrechion i apelio at bob sector o'r gymuned ac i ymwneud fwyfwy â nhw.

Rwy'n ddiolchgar i'r Llyfrgell Genedlaethol am ei gwaith yn cynnig cefnogaeth werthfawr mewn meysydd penodol, yn arbennig:

- eich cyfraniad at y rhaglen *Cyfuno: Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant*
- eich cefnogaeth i raglen *Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914 – 1918*
- eich swyddogaeth yn rhaglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru
- eich gwaith yn datblygu gweithio mewn partneriaeth drwy Cymru Hanesyddol
- rhoi cymorth ac arweiniad i'r sector llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd arian rhaglen *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 i'w phartneriaid yn dod i ben yn 2019-20 a bydd yn awr yn canolbwyntio ar greu gwaddol barhaol wedi cyfnod hir o brysurdeb. Hoffwn weld y Llyfrgell Genedlaethol yn parhau i weithio â thîm *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 i sicrhau bod y waddol honno'n cael ei chreu.

Rwyf hefyd wedi gofyn i'm swyddogion adolygu'r rhaglen Casgliad y Werin Cymru er mwyn hwyluso'i gweithgareddau a sicrhau ei bod yn para'n gyson â blaenoriaethau'r Llywodraeth. A hithau'n un o brif bartneriaid y rhaglen, mae'n bwysig bod y Llyfrgell Genedlaethol yn cymryd rhan lawn yn y broses hon.

Yn ogystal â gwaith craidd y Llyfrgell Genedlaethol fel y'i amlinellir yn ei Siarter, dyma fy mlaenoriaethau ar gyfer y Llyfrgell Genedlaethol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod:

- cadw'r ffocws ar ddenu aelodau newydd a gwella profiadau'r ymwelydd a chynyddu incwm. Dylid defnyddio gweithgareddau marchnata a hyrwyddo uchel eu proffil i gefnogi hyn;
- parhau â'r cynlluniau ar gyfer ailddatblygu mannau cyhoeddus y Llyfrgell;
- cynllunio ar gyfer ailddatblygu Oriel Gregynog, gan gyrraedd y safonau ar gyfer cyrff cenedlaethol a ddisgrifir yng Nghynllun Indemniad y Llywodraeth;
- chwilio am gyfleoedd i gryfhau gweithgarwch ymchwil a phartneriaethau ymchwil y Llyfrgell Genedlaethol, gan gynnwys partneriaethau â sefydliadau addysg Uwch ac ôl-16;
- sicrhau a chynnal cynaliadwyedd tymor hir yr Archif Ddarlledu Genedlaethol, yn unol â'r amodau yn fy llythyr ym mis Chwefror 2019;
- cynnig ymateb proactif i weithgarwch cenedlaethol y sector Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, megis datblygu cynllun strategol ar gyfer llyfrgelloedd;
- cefnogi Blwyddyn Darganfod ac ymgyrchoedd thematig newydd Croeso Cymru.

Disgrifir y blaenoriaethau hyn yn fanylach yn Atodiad 1.

Mae Atodiad 2 yn nodi'r Cymorth Grant a delir gan Lywodraeth Cymru i'r Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer 2019-20 a'r Cymorth Grant Cyfalaf a ragwelir ar gyfer 2020-21.

Mae cyd-destun strategol ein gwaith yn para'n ddigyfnewid ers 2018-19. Mae *Ffyniant i Bawb, Golau yn y Gwyll a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* oll yn cynnig fframwaith gweithio clir y dylech ei integreiddio yn eich cynllun gweithredol.

Fel ag a nodir yn y Contract Economaidd sy'n rhan o'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, disgwylir i gyrff a noddir rannu ein gwerthoedd. Mae'r Contract Economaidd yn gyfrwng pwysig inni fuddsoddi arian cyhoeddus er lles cymdeithas a dylai'r cyrff rydym yn eu cefnogi gadw at egwyddorion y Contract o ran twf cynhwysol, gwaith teg, iechyd a sgiliau yn y gweithle a rheoli ôl troed carbon.

Fel y gwyddoch, mae fy nghyd-weinidog Eluned Morgan AC, y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg, wrthi'n datblygu strategaeth newydd ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol. Mae'n amlwg fod gan sector diwylliant a threftadaeth Cymru ran allweddol i'w chwarae wrth helpu i hyrwyddo Cymru, ac o ran creu cyfleoedd economaidd a diwylliannol. Rwy'n gofyn felly i'r Llyfrgell Genedlaethol ymroi i'r strategaeth newydd, gan adeiladu ymhellach ar y pwyslais presennol a adlewyrchir ar hyn o bryd yn Atodiad 1 (1.3).

Mae cynnal cyfrifoldebau statudol a chyrraedd safonau proffesiynol yn allweddol i ddangos bod y Llyfrgell yn gofalu'n effeithiol am ein casgliadau cenedlaethol ac yn eu datblygu. Mae gan y Llyfrgell ddyletswyddau statudol a rhwymedigaethau penodol mewn perthynas â mathau penodol o ddeunyddiau o dan y darnau isod o ddeddfwriaeth y DU:

- Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958, ac mae ganddi gyfrifoldebau hefyd am fathau eraill rheoledig o gofnodion
- Deddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyhoeddus 2003 a Rheoliadau Llyfrgelloedd Adneuo Cyhoeddus (Gweithiau Di-brint) 2013

Byddaf yn disgwyl felly i'r Llyfrgell gadw ei Hachrediad fel Gwasanaeth Archif a'i statws fel lle adneuo o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 ac i ymgeisio am Achrediad fel Amgueddfa yr un pryd ag y bydd yn adnewyddu'i Hachrediad fel Gwasanaeth Archif. Rwyf hefyd yn eich annog i gynnal, ac os yn bosibl, wella eich llwyddiannau presennol o dan y safonau Croeso Cymru a Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid.

Yn ystod 2019-2020, rwy'n gobeithio cyhoeddi fy ymateb i'r argymhellion ar gyfer sefydlu oriel celf gyfoes genedlaethol. Yn y cyd-destun hwn, hoffwn weld y Llyfrgell yn cyfrannu at gydweithio ar lefel uchel a chefnogi gweithgareddau fydd yn dod â meysydd eraill fy mhorthffolio, gan gynnwys Diwylliant, Twristiaeth a'r Celfyddydau, ynghyd.

Rydym yn llawn ddeall bod eich Siarter Brenhinol a'ch statws elusenol yn golygu bod gofyn i'r Llyfrgell Genedlaethol weithio'n annibynnol o ddydd i ddydd, a bydd fy swyddogion a finnau'n gweithio gyda chi i ddatblygu perthynas fydd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ac ar gyfathrebu agored a gonest.

Dylech gynnwys yr uchod yn eich Cynllun Gweithredol drafft ar gyfer 2019-20 er mwyn i'r nodau, y targedau a'r dangosyddion perfformiad perthnasol sydd ynddo gael eu cymeradwyo.

Fe wyddoch am ddymuniad Llywodraeth Cymru i weld partneriaethau â chyrrff a noddir yn symud at gylch gwaith sy'n para Tymor Llywodraeth. Yn y cyd-destun hwn, hoffwn ichi ystyried y llythyr hwn fel sylfaen ar gyfer ein perthynas tan ddiwedd Tymor y Llywodraeth bresennol yn 2021.

Gan edrych ymlaen at glywed mwy am eich gwaith yn ystod y flwyddyn i ddod.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

## Atodiad 1: Y Ffeithiau Allweddol

### 1.0 Unedig a Chysylltiedig

"Ein nod yw meithrin cenedl ble y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, a'n lle yn y byd." (Ffyniant i Bawb; tud 19)

#### 1.1 Nod Ffyniant i Bawb: Creu cymunedau, diwylliant a iaith gref,

Mae gan ein sefydliadau diwylliannol y gallu i helpu a galluogi pobl o bob cefndir i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol Cymru, ac i gynorthwyo gyda chreu cymunedau cydlynus.

Yn benodol, byddwn yn disgwyl i'r Llyfrgell Genedlaethol Cymru:

- Gynyddu mynediad at gasgliadau, gwasanaethau ac adnoddau'r Llyfrgell Genedlaethol;
- Parhau i ddarparu cymorth strategol i'r sector llyfrgelloedd ehangach yng Nghymru, yn enwedig trwy'r fenter Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol.

#### 1.2 Nod Golau yn y Gwyll: Cynyddu cyfraniad, cynhwysiant a chysylltiad

Gall y Llyfrgell Genedlaethol helpu Cymru i ddod yn genedl greadigol; gan roi cyfleoedd diwylliannol i bobl o bob cefndir ac adlewyrchu amrywiaeth ein cenedl.

Hoffwn i'r Llyfrgell Genedlaethol barhau i ddatblygu gweithgareddau i gefnogi'r rhaglen *Cyfuno*; a'r tu hwnt i hyn:

- Annog a chynyddu yr ystod ehangaf o gynulleidfaoedd amrywiol i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol
- Monitro boddhad y defnyddiwr a chynnwys adborth y defnyddiwr mewn mentrau a datblygiadau yn y dyfodol
- Adeiladu ar y rhaglen ddigideiddio bresennol fel ffordd o wella mynediad at gasgliadau, ond hefyd fel ffordd i helpu ac annog pobl i gymryd rhan ac i ymwneud.

#### 1.3 Nod Ffyniant i Bawb: Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd

Mae gan y Llyfrgell Genedlaethol swyddogaeth bwysig o ran arddangos diwylliant, treftadaeth a iaith Cymru i gynulleidfa ryngwladol, gan helpu i hyrwyddo ein cenedl ledled y byd.

Yn benodol, byddwn yn disgwyl i Lyfrgell Genedlaethol Cymru:

- Gynnal a datblygu eich cysylltiadau rhyngwladol presennol
- Parhau i gydweithio â Croeso Cymru i hyrwyddo Cymru, gan gynnwys trwy eich cymorth ar gyfer y 'Flwyddyn Darganfod' yn 2019.
- Darparu cynnwys, gwasanaethau ac adnoddau digidol o safon uchel i gyrraedd cynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol

## 2.0 Cymru uchelgeisiol sy'n Dysgu

"Ein nod yw creu angerdd i bawb ddysgu trwy gydol eu bywydau..."  
(Ffyniant i Bawb; tud 15)

### **2.1 Nod Ffyniant i Bawb: Cefnogi pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial ac i greu uchelgais ac annog dysgu am oes**

Gall sefydliadau diwylliannol ehangu gorwelion pobl a chodi eu dyheadau, gan gynnig cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i unigolion ddatblygu a chyflawni drwy gydol eu bywydau.

Yn benodol, byddwn yn disgwyl i Lyfrgell Genedlaethol Cymru:

- Ddatblygu a chynnal rhaglenni dysgu ffurfiol yn unol â Chwricwlwm newydd Cymru;
- Denu cyllid ar gyfer gwaith ymchwil a gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau'r sector addysg uwch;
- Parhau i greu adnoddau dysgu digidol ar gyfer Hwb mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, y Comisiwn Brenhinol a Cadw;
- Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda theuluoedd, ysgolion a chynulleidfaoedd cymunedol eraill ledled Cymru mewn ffordd ystyrlon a pherthnasol, gan gynyddu'r cyfleoedd i weithio â phobl ifanc.

### **3.0 Cymru ffyniannus a diogel**

"Ein nod yw economi yng Nghymru sy'n cynnig ffyniant i'r unigolyn ac yn genedlaethol tra'n lledaenu cyfleoedd a mynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb..." (Ffyniant i Bawb, tudalen 7)

### **3.1 Nod Ffyniant i Bawb: Cefnogi pobl a busnesau i yrru ffyniant; mynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb rhanbarthol a gwaith teg**

Mae angen gweithio gyda sefydliadau, staff ac undebau llafur cydnabyddedig er mwyn mynd i'r afael â gofynion sgiliau arbenigol o fewn y sector treftadaeth ddiwylliannol ehangach ac i reoli perthynas ddiwydiannol.

Yn benodol, byddwn yn disgwyl i Lyfrgell Genedlaethol Cymru:

- Parhau i adeiladu ar y gwaith ar sgiliau sectorol a wneir mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol a'r sectorau archifau a llyfrgelloedd yng Nghymru;
- Parhau i ddarparu cymorth strategol i'r sector archifau ehangach yng Nghymru, yn enwedig ym maes cadwraeth ddigidol;
- Parhau i weithio gyda staff a'r undebau llafur cydnabyddedig i gryfhau a datblygu gweithlu'r Llyfrgell, gan roi sylw arbennig i ddatblygu sgiliau proffesiynol a chynllunio'r olyniaeth.

### **3.2 Nod Ffyniant i Bawb: Datblygu twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd**

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn gorff enwebedig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Dylai egwyddorion cynaliadwyedd a syniadau hirdymor fod yn sail i gynllunio yn eich sefydliad.

Yn benodol, byddwn yn disgwyl i Lyfrgell Genedlaethol Cymru:

- Sicrhau bod gwaith cynnal a chadw ac adeiladu yn y Llyfrgell Genedlaethol sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru yn cael ei reoli yn effeithiol ac yn effeithlon
- Parhau â'r gwaith o gynyddu cyllid o ffynonellau allanol i'ch gwneud yn llai dibynnol ar gyllid Grant gan Lywodraeth Cymru
- Diweddarau cynllun rheoli carbon y Llyfrgell

#### **4.0 Cymru iach ac egniïol**

"Ein nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau.. lle mae iechyd da yn cael ei ystyried yn gaffaeliad naturiol i bawb."

(Ffyniant i Bawb; tud 11)

#### **4.1 Nod *Ffyniant i Bawb*: Hyrwyddo iechyd a llesiant da i bawb; a chreu cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell**

Gall ein sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol gefnogi ymdrechion ehangach i greu'r amodau iawn ar gyfer gwella iechyd a llesiant a mwy o weithgarwch corfforol, gan gynyddu cynhwysiant cymdeithasol drwy gynnig cyfleoedd i bobl hŷn a phobl sydd â chyflyrau corfforol neu feddyliol gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.

Yn benodol, byddwn yn disgwyl i Lyfrgell Genedlaethol Cymru:

- Parhau i roi'ch Cynllun Gwirfoddoli ar waith a'i ehangu;
- Ymgysylltu ag agenda Unigrwydd a bod yn Ynysig Llywodraeth Cymru.

## Atodiad 2: Cymorth ariannol

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Cymorth Grant isod i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn 2019-20 i gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y llythyr hwn. Ceir y ffigurau a ragwelir ar gyfer 2020-21 hefyd (cyfalaf yn unig). Fel arfer, bydd Llywodraeth Cymru'n cadarnhau'i lefelau ariannu ar gyfer y dyfodol ar ôl llunio ei chyllideb flynyddol.

<b>Refeniw</b>	<b>Y Gyllideb 2019-20 £000</b>
Refeniw (gros)	10,285
Llai: Incwm a gynhyrchir gan y Llyfrgell	(700)
<b>Cyfanswm Refeniw (net)</b>	<b>9,585</b>

<b>Heb fod yn arian parod</b>	<b>Y Gyllideb 2019-20 £000</b>
Dibrisiant*	1,250

*\*Mae dibrisiant yn eitem nad yw'n arian parod ac nid yw ar gael i'w dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn*

<b>Cyfalaf</b>	<b>Cyllideb 2019-20 £000</b>	<b>Cynllun 2020-21 £000</b>
Grant Prynu	305	305
Grant Seilwaith Digidol		
Cyfalaf Cynnal a Chadw	2,400	275
<b>Cyfanswm Cyfalaf</b>	<b>2,705</b>	<b>580</b>

### **Telerau ac Amodau'r Cymorth Grant:**

Mae'r cytundeb cyllido rhwng y Llyfrgell Genedlaethol a Llywodraeth Cymru (y ddogfen Fframwaith) yn nodi manylion y berthynas noddi a'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cymorth grant y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r Llyfrgell Genedlaethol fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Darperir cyllid grant i'r Llyfrgell Genedlaethol o dan Adran 61 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r ddogfen Fframwaith hefyd yn nodi amryfal ofynion gweithredol gan gyfeirio at ganllawiau a pholisïau o eiddo'r llywodraeth y mae angen i'r Llyfrgell Genedlaethol gydymffurfio â hwy, yn ychwanegol at ei dyletswyddau a'i chyfrifoldebau ei hun fel corff sydd â Siarter, fel Elusen Gofrestredig, a sefydliad cyhoeddus yng Nghymru. Fel y nodir yn y Ddogfen Fframwaith, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (MALD) yw'r is-adran sy'n noddi'r Llyfrgell Genedlaethol, a thrwy gyfarfodydd chwarterol, yn monitro'r cynnydd y mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn ei wneud yn unol â thargedau a cherrig milltir allweddol.